

**Yr wybodaeth
rydych chi'n ei
rhannu gyda ni
(hysbysiad
preifatrwydd)**



Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut rydyn ni'n gweithio o fewn y gyfraith i ddiogelu'r holl wybodaeth rydych chi'n ei rhannu gyda ni trwy'r arolwg. Mae hefyd yn esbonio sut byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yna'n saff a sut byddwn ni'n ei defnyddio.

Beth rydyn ni'n ceisio'i gyflawni â'r arolwg:

- Gwneud yn siŵr bod gan blant a phobl ifanc ffordd o rannu profiadau a barn am eu bywydau;
- Gwneud yn siŵr bod Comisiynydd Plant Cymru (CPC) yn gallu deall profiadau plant a hyrwyddo eu blaenoriaethau a'u hanghenion.

Bydd yr arolwg yn cael ei gwblhau gan blant a phobl ifanc unigol, rhieni / gofaluwr a phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ac ar eu rhan.

Gwybodaeth bwysig am yr arolwg a'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu gennych chi:

Dyma wybodaeth am yr holiadur:

Mae'n ddiennw. Dyw e ddim yn gofyn am eich enw chi nac enw eich ysgol nac unrhyw sefydliad sy'n eich cefnogi. Er ein bod ni'n gofyn am rywfaint o wybodaeth bersonol yn yr arolwg, does dim rhaid i chi ateb y cwestiynau hynny, a fyddwn ni ddim yn gallu eich adnabod o'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n gofyn amdani. Yr unig ffordd bydden ni'n gallu eich adnabod fyddai petaech chi'n cynnwys manylion am eich hunaniaeth wrthyn ni mewn sylwadau testun rhydd. Petaech chi'n gwneud hynny, fyddwn ni ddim yn ceisio cysylltu â chi neu'r oedolion sy'n gofalu amdanoch chi ond petaech chi'n dweud rhywbeth wrthyn ni fyddai'n gwneud i ni bryderu am eich diogelwch.

Mae'n wirfoddol. Does dim rhaid i chi gymryd rhan. Gallwch chi dynnu allan o'r arolwg unrhyw bryd, heb roi rheswm.

Mae'r holiadur wedi'i greu gan ddefnyddio meddalwedd arbennig ar gyfer arolygon, o'r enw Snap Surveys, ac mae'n gallu cael ei gwblhau yno hefyd.

Sut byddwn ni'n defnyddio ac yn storio'r wybodaeth o'r holiadur:

Comisiynydd Plant Cymru sy'n gyfrifol yn y pen draw am yr holl ddata rydyn ni'n ei gasglu a'i rannu yn ystod y prosiect yma. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod hyn i gyd yn digwydd yn unol â'r holl gyfreithiau diogelu data perthnasol.

Ein sail cyfreithlon ar gyfer gwneud y gwaith hwn yw: Sail tasg gyhoeddus (Erthygl 6 (1) (e) o'r GDPR).

Bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei chyflwyno yn cael ei storio gan Snap Surveys.

Sut byddwn ni'n defnyddio'r data:

Byddwn ni'n gwneud yr holl ddata yn ddiennw cyn ei rannu gydag unrhyw un.

Byddwn ni'n cyhoeddi adroddiadau ar ganlyniadau'r arolwg. Ni fydd dim o'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth fyddai'n golygu bod modd eich adnabod chi neu blant a phobl ifanc eraill.

Efallai byddwn ni'n rhannu rhai o ganlyniadau'r arolwg gyda chyrrff cyhoeddus eraill, er enghraifft, Llywodraeth Cymru. Os byddwn ni'n gwneud hynny, fyddwn ni ddim yn rhannu unrhyw wybodaeth a allai olygu bod modd eich adnabod chi neu blant a phobl ifanc eraill.



Sut byddwn ni'n storio'r data:

Bydd y data'n cael ei storio gan Snap Surveys yn unol â'u [polisi preifatrwydd](#) a'u [polisi diogelu data](#) (Saesneg yn unig).

Byddwn ni'n cadw'r wybodaeth mae pobl yn ei rhannu gyda ni am 7 mlynedd — tan 2029 — ar ein systemau TG diogel, yn unol â'n polisi cadw dogfennau.

Diogelu – os byddwn ni'n pryderu am eich diogelwch:

Rydyn ni'n darparu rhif ffôn ChildLine a manylion cyswllt Meic ar gyfer unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd eisiau trafod rhywbeth sy'u eu poeni ar ôl cwblhau'r arolwg. Ar ddiwedd yr arolwg, byddwch chi'n mynd i wefan y Comisiynydd, lle mae llawer o gyngor, cefnogaeth, gwybodaeth a manylion sut i gysylltu â ni.

Os bydd rhywun yn datgelu rhywbeth yn eu hymateb sy'n golygu bod modd eu hadnabod, e.e. maen nhw'n ysgrifennu am eu sefyllfa bresennol a sut gallwn ni gysylltu â nhw, bydd Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor profiadol yn swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn adolygu'r dystiolaeth yn erbyn polisi diogelu'r Comisiynydd ac yn penderfynu a ddylid cysylltu â'r unigolyn. Bydd y swyddfa'n cysylltu dim ond os bydd modd, a dim ond os byddwn ni'n pryderu am ddiogelwch y plentyn.

Ein manylion cyswllt:

Enw: Comisiynydd Plant Cymru

Rhif ffôn: 01792 765600

E-bost: post@complantcymru.org.uk

Sut mae cwyno:

Os bydd gennych chi unrhyw bryderon ynghylch ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch chi gwyno wrthyn ni ar post@complantcymru.org.uk neu 01792 765600

Hefyd gallwch chi gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych chi'n anfodlon ar sut rydyn ni wedi defnyddio eich data.

Cyfeiriad yr ICO:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113

Gwefan yr ICO: <https://www.ico.org.uk>



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales